

Llais y Cleifion Bwletin Newyddion

Rhifyn 38
Haf 2020

Ry'n ni yma i chi o hyd!

Wrth fynd i mewn i seithfed mis pandemig COVID-19, mae ein swyddfa, Tŷ Rhaglan, ar gau o hyd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

Er bod y swyddfa ar gau, **mae ein gwasanaethau ar agor ac yn gwbl weithredol** ar gyfer busnes fel arfer. Mae'r holl staff yn gweithio gartref ac yn parhau i gefnogi cleifion a'r cyhoedd. Caiff holl gyfarfodydd y Pwyllgor sydd wedi'u trefnu eu cynnal dros Microsoft Teams. Gallwch ddod o hyd i'n holl gyfarfodydd sydd wedi'u trefnu, gan fod rhai ohonynt yn agored i'r cyhoedd, ar ein gwefan

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/901/tudalen/45218>

Gweithio gyda'n gilydd

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn rheoli'r pandemig yn briodol a bod y gymuned yn deall pa wasanaethau'r GIG a fydd yn dychwelyd i'r drefn arferol, a phryd.

Os ydych am gael gwybod pryd y bydd eich gwasanaeth iechyd chi yn aildddechrau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio tudalen ddefnyddiol ar y we sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am holl wasanaethau'r GIG. Dilynwch y ddolen isod.

<https://bipab.gig.cymru/ailgychwyn-gwasanaethau1/ailgychwyn-gwasanaethau/>

Dolenni defnyddiol am y Coronafeirws:

- Llywodraeth Cymru – Rheoliadau'r Coronafeirws: cwestiynau cyffredin: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-aros-gartref-chadw-draw-oddi-wrth-bobl-erail?>
- Ymweliadau Ysbyty yn ystod y sefyllfa o ran y coronafeirws: <https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau?ga=2.243761413.1862487450.1603792648-948712244.1601649566>



Mae Ysbyty Athrofaol y Grange yn Agor yn

Bydd Ysbyty Athrofaol y Grange yn agor yn swyddogol yng nghanol mis Tachwedd eleni, yn hytrach na'r dyddiad a gynlluniwyd yn wreiddiol sef mis Mawrth 2021.

Bydd y cyfleuster newydd sydd wedi'i leoli yn Llanfrechfa, ar gyrion Cwmbrân, yn darparu gofal brys ac yn cyfuno'r gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni.



Cysylltwch â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dros e-bost:

engagement.abb@wales.nhs.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ysbyty Athrofaol y Grange neu unrhyw un o'r ysbytai eraill.

Bydd y safle sydd wedi'i leoli dros 60 erw, yn cynnwys 471 o welyau ac yn cynnwys cyfleuster asesu brys 24 awr, cyfleusterau gofal dwys, cyfleusterau diagnostig cynhwysfawr, gwelyau i gleifion mewnol ar gyfer achosion brys difrifol a llawdriniaethau brys yn ogystal â theatrau.

Bydd pob aelwyd ledled Gwent yn derbyn taflen wybodaeth ym mis Tachwedd a fydd yn egluro'r newidiadau'n fanylach wrth i Ysbyty Athrofaol y Grange agor.

Gallwch eisoes gael mynediad i'r daflen wybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd: <https://bipab.gig.cymru/> a chlicio ar y tab "Dyfodol Clinigol"

Mae eich Gwasanaethau GIG yng Ngwent yn newid
pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor ar 17 Tachwedd 2020*

Your NHS services in Gwent are changing
when The Grange University Hospital opens on November 17th 2020*

*Date may be subject to change due to the COVID-19 pandemic and other pressures on our NHS services.

Cadwch llygad mas am y llyfryn gwybodaeth, neu ewch i <http://bipab.gig.cymru>
Please look out for the information booklet, or visit <https://abuhb.nhs.wales/>



Gwefan:

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk



Arolygon i rannu eich profiadau a'ch

Ydych chi'n defnyddio Gwasanaethau Nyrsys Ardal?



Rydym yn awyddus i glywed am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Nyrsys Ardal yng Ngwent. Rhannwch eich profiadau

Gofal y GIG yn ystod y Coronafeirws

Byddwn yn rhannu'r hyn y mae pobl a chymunedau lleol yn ei ddweud wrthym â'r GIG. Gwneir hyn fel bod modd i'r GIG weld beth mae pobl yn meddwl sy'n gweithio'n dda, ac er mwyn cymryd camau i wella gofal lle y bo angen hynny – cyn gynted â phosibl.

Rhowch eich adborth ar y GIG i ni drwy gwblhau ein harolwg [yma](#)



Apwyntiadau Rhithwir



Mae Covid-19 wedi newid y ffordd y mae'r GIG yn cynnal apwyntiadau.

Ydych chi wedi cael apwyntiad rhithwir yn ddiweddar gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol? Hoffem glywed am eich profiad a chael adborth ar ddefnyddio'r dull hwn o gynnal apwyntiadau drwy gwblhau ein harolwg byr [yma](#)

Bydd eich adborth yn helpu i wneud gwahaniaeth!



Gwefan:

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

enquiries.aneurinbevan.chc@waleschc.org.uk

Diweddariadau'r CIC...



Cynllun Gweithredol CIC 2020–2021

Lansiodd y Cyngor Iechyd Cymuned ei Gynllun Gweithredol 2020/2021 ym mis Mawrth, ond yn sgil Covid-19, ailddatblygwyd y cynllun a lansiwyd cynllun diwygiedig. Gweler y cynllun diwygiedig [yma](#)



Safonau'r Gymraeg y Cyngor Iechyd Cymuned Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Rydym yn falch o gynnig ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg, sy'n nodi ein gwaith a'n hymrwymiad i roi gwasanaethau cwbl ddwyieithog ar waith.

Ers i Safonau'r Gymraeg gael eu cyflwyno ym mis Mai 2019, mae'n galonogol nodi nad ydym wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â'n perfformiad o ran cymhwyso'r safonau dros y flwyddyn ddiwethaf. Gweler ein Hadroddiad [yma](#)

Ymgysylltu â Chleifion Mewnol yn Rhithwir

Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i'n galluogi i siarad â chleifion yn yr ysbyty. Mae ein haelodau'n cynnal sgysiau â chleifion ar sawl ward ym mhob ysbyty i ddeall eu profiadau o dderbyn gofal cleifion mewnol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rhoddir gwybod am unrhyw faterion y mae cleifion yn eu codi i'r Bwrdd Iechyd fel y gellir mynd i'r afael â nhw ar y diwrnod.

Bwletin mis Awst 2020 Adborth y cyhoedd

Cysylltodd 80 o bobl â ni ym mis Awst i rannu eu barn a'u profiadau diweddar â Gwasanaethau'r GIG.

Mae briffiad ar gael [yma](#) sy'n rhoi cipolwg o'r pethau mae pobl wedi sôn wrthym amdanynt. Hoffem ddiolch i bawb a oedd wedi ysgrifennu atom i rannu eu profiadau. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i helpu'r GIG i ddysgu oddi wrth eich sylwadau.



Diweddariadau'r CIC...



Croeso cynnes!

Penodi staff newydd

Ym mis Awst 2020, croesawodd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan Miss Maisy Bowen fel Swyddog Cymorth Eiriolaeth. Llongyfarchiadau a chroeso i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Maisy!

Aelodau gwirfoddol newydd

Ym mis Awst 2020, croesawodd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan dri aelod newydd:

- ☺ Mrs Lynne Lewis
- ☺ Ms Rizwana Nadeem
- ☺ Mrs Sue Campbell

Gwasanaeth Eiriolaeth CIC

Rhwng 1 Mai a 30 Medi 2020, cafwyd 63 o gwynion newydd. Mae gennym 134 o achosion ar agor ar hyn o bryd, sy'n gynydd ers y cylchlythyr diwethaf. Y tri phrif wasanaeth gofal iechyd sy'n ymddangos yn y 63 o gwynion yw Practisau Cyffredinol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Rydym ar y Cyfryngau Cymdeithasol!

Facebook!



Ewch i'n tudalen Facebook

[yma](#)

neu chwiliwch am "CIC Aneurin Bevan CHC"



Twitter!



Ewch i'n tudalen Twitter

[yma](#)

neu chwiliwch am @bevanhc

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.



Gwefan:

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan



Ffôn:

01633 838516



E-bost:

enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk